Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Awel y Mynydd
# Sarn Mynach
# Cyffordd Llandudno
# Conwy
# LL31 9RZ

**Dyddiad yr arolygiad: December 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Awel y Mynydd

Mae Ysgol Awel y Mynydd yn ysgol gynradd newydd, sydd wedi ei lleoli yn ardal Sarn Mynach yng Nghyffordd Llandudno, yn awdurdod lleol Sir Conwy. Sefydlwyd yr ysgol yn 2016 yn dilyn cau dwy ysgol leol, gan eu cyfuno mewn adeilad newydd ym mis Medi 2017. Mae 494 o ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys 62 oed meithrin sy'n mynychu'r ysgol yn amser llawn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu un ai yn y ffrwd Gymraeg neu'r ffrwd Saesneg ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau oed cymysg o fewn y ffrydiau hyn. Mae dwy uned ar safle'r ysgol yn darparu addysg arbenigol i ddisgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Tros dreigl amser, mae tua 20% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig uwch na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 29% o'i disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwch na'r ganran genedlaethol o 21%. Mae tua 21% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol iddynt. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dod o gefndir gwyn Prydeinig.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers sefydlu'r ysgol yn 2016. Nid oedd y pennaeth na'r dirprwy yn bresennol yn yr ysgol yn ystod yr arolygiad. Mae pennaeth mewn gofal dros dro yn ei swydd ers Medi 2019 a'r dirprwy bennaeth dros dro ers mis Hydref 2019. Dyma arolygiad cyntaf yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Er ei fod bellach yn gwella, dros gyfnod, nid yw arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol wedi bod yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi gweithredu'n ddigon strategol i sicrhau bod prosesau'r ysgol ar gyfer gwelliant yn cael effaith ddigon cadarnhaol ar y ddarpariaeth na safonau disgyblion. Nid yw prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion ychwaith wedi bod yn ddigon cadarn a dibynadwy. O ganlyniad, nid yw arweinwyr nac athrawon wedi bod yn targedu unigolion na grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddigon manwl i sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd gorau.

Er hyn, mae bron pob un disgybl yn gwrtais ac yn ymddwyn yn o dda. Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent yn dangos brwdfrydedd a dyfalbarhad gyda'u tasgau. Mwyafrif y disgyblion sy'n gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ond mae disgyblion yr unedau arbenigol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae gan y staff berthynas waith gadarnhaol gyda'r disgyblion, sy'n ennyn diddordeb y mwyafrif ohonynt yn dda ac yn eu hannog, ar y cyfan, i weithio'n ddiwyd mewn amgylchedd ddysgu gynhwysol a chefnogol. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn briodol ac yn fodelau iaith medrus i'r disgyblion. Mae bron pob aelod o staff yn cefnogi'r disgyblion yn gydwybodol ac yn darparu gweithgareddau sy'n cyfateb yn lled briodol i anghenion y mwyafrif ohonynt. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cyfateb i anghenion lleiafrif sylweddol o ddisgyblion. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion, yn arbennig y rhai uwch eu gallu, bob amser yn cyflawni hyd orau eu gallu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |

## Argymhellion

A1. Sefydlu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol

A2. Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

A3. Sefydlu a gwneud defnydd effeithiol o brosesau olrhain cynnydd disgyblion

A4. Sichrau bod athrawon yn cynllunio’n fwriadus i ddatblygu cyfleoedd heriol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y meysydd dysgu

A5. Codi safonau a gwella medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion

A6. Sicrhau bod disgyblion yn cyfrannu’n effeithiol i’w dysgu eu hunain ac at wneud penderfyniadau ehangach ar waith yr ysgol

A7. Cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru wrth gynllunio gwariant grantiau penodol

## Beth sy’n digwydd nesaf

### Mesurau arbennig

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon.  Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis fel arfer.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mwyafrif y disgyblion sy'n gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae mwyafrif y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheini yn yr unedau, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r mwyafrif yn adalw gwybodaeth flaenorol i gof yn llwyddiannus ond nid yw lleiafrif sylweddol y disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, yn arbennig y rheini sydd â gallu uwch. Lleiafrif y disgyblion sy'n datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ar draws y meysydd dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn y ddwy iaith mewn ystod addas o weithgareddau. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn cyfrannu'n briodol at drafodaethau ac yn dangos parch at gyfraniadau ei gilydd. Mae llawer yn awyddus i gynnig atebion a datblygu eu syniadau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth i ddisgyblion y cyfnod sylfaen drafod y cwestiwn 'ydy gwrthrychau bach yn ysgafnach neu'n drymach na rhai mawr?'. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae medrau llafar llawer o ddisgyblion y ffrwd Gymraeg yn datblygu'n lled gadarnhaol yn y ddwy iaith, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog medrus. Mae medrau llafar y rheini yn ffrwd y dysgwyr yn datblygu'n briodol yn Saesneg. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg mwyafrif disgyblion ffrwd y dysgwyr yn datblygu'n ddigon cadarn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddysgu darllen. Maent yn datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn briodol ac yn defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen yn gynyddol hyderus. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen lleiafrif sylweddol y disgyblion yn datblygu'n ddigon bwriadus ac nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd dros amser. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn y ddwy ffrwd yn darllen yn rhugl a chyda cywirdeb yn y Gymraeg a Saesneg. Mae ychydig yn ffrwd y dysgwyr yn datblygu eu medrau darllen Cymraeg yn briodol. Mae disgyblion y ddwy ffrwd, ar y cyfan, yn trafod cynnwys llyfrau yn hyderus wrth ddysgu am fywyd plentyn yn ystod y rhyfel. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion o allu cymhedrol yn datblygu eu medrau'n briodol yn y ddwy iaith i gywain a threfnu gwybodaeth yn effeithiol, er enghraifft wrth ddysgu am Neil Armstrong yn glanio ar y lleuad. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cynnydd mae disgyblion mwy abl yn ei wneud wrth ddefnyddio'u medrau darllen i gywain gwybodaeth.

Mae medrau ysgrifennu mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n gyson yn y ddwy iaith. Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol mewn amrywiaeth o weithgareddau addas, er enghraifft wrth labelu rhannau o'r corff. Maent yn sillafu geiriau syml yn gywir ac, ar y cyfan, yn atalnodi'n gyson, yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu mewn amrywiaeth briodol o ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau i dyfu berw'r dŵr. Wrth i'r disgyblion symud trwy'r ysgol, mae'r mwyafrif yn datblygu eu medrau'n addas mewn ystod o ffurfiau. Maent yn defnyddio geirfa estynedig yn eu gwaith creadigol ac yn ymestyn eu brawddegau'n gyson wrth ysgrifennu stori am y Geirios Greulon. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn datblygu

eu medrau ysgrifennu'n hyderus ar draws y meysydd dysgu yn y naill iaith na'r iaith. Nid yw mwyafrif disgyblion ffrwd y dysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd dros amser.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau rhif. Mae eu dealltwriaeth o ffeithiau rhif a gwerth lle yn datblygu'n addas. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau yn effeithiol wrth fesur yr amser mae parasiwt yn ei gymryd i lanio o wahanol uchder. Mae medrau rhif mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n briodol ar eu dysgu blaenorol. Maent, er enghraifft, yn datrys cyfanswm yn fanwl wrth sicrhau gwerth gorau am arian wrth brynu bwyd a diod mewn archfarchnad leol ar gyfer ymweliad â'r theatr. Fodd bynnag, nid yw medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddigon llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd, yn enwedig y disgyblion uwch eu gallu.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion yn datblygu'n anghyson. Mae mwyafrif disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio llechen electronig yn hyderus ac yn rheoli tegan rhaglenadwy yn fedrus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau trin a thrafod data yn briodol, er enghraifft wrth fewnbynu canlyniadau arbrawf gwyddonol i daenlen er mwyn creu graff llinell addas, ac yna dehongli'r data'n wybodus. Fodd bynnag, nid yw medrau mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n ddigon cynhwysfawr na datblygedig trwy'r ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae bron pob un disgybl yn barchus a chwrtais tuag at ei gilydd, staff a phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol mewn modd pwyllog a threfnus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn glir ynglŷn â disgwyliadau'r ysgol o ran eu hymddygiad, sy'n eu cymell yn bwrpasol i ymddwyn yn dda a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae bron pob un disgybl yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n gwbl ddiogel yno. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn amserol i unrhyw bryder sydd ganddynt.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod sut i wneud dewisiadau synhwyrol am fwyta'n iach, er enghraifft wrth ddewis beth i'w gynnwys yn eu bocsys bwyd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff a chadw'n heini. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r modd mae disgyblion yn ymgymryd â theithio 'milltir y dydd' yn gyson. Mae gan bron pob un disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y wê.

Mae nifer fechan o grwpiau disgyblion, fel y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r Cewri Cymraeg yn helpu gwella agweddau cyfyng ar fywyd yr ysgol wrth iddynt drefnu diwrnod dillad lliwgar i godi arian at elusen, er enghraifft. Fodd bynnag, ychydig iawn sy'n datblygu medrau arwain effeithiol heb gymorth gan oedolyn, yn arbennig wrth ddatblygu syniadau i wella agweddau ar waith yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn teimlo bod eu llais yn cael digon o ddylanwad nac effaith ar waith a chyfeiriad yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n synhwyrol gyda phartner ac mewn grwpiau. Mae ganddynt agweddau lled gadarnhaol tuag at eu gwaith ac maent, ar y cyfan, yn dangos brwdfrydedd a dyfalbarhad gyda'u tasgau. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn llunio pamffled a fideo i esbonio sut i gerdded yn ddiogel i'r ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion, ar y cyfan, yn canolbwyntio'n briodol, yn mwynhau dysgu ac yn cwblhau tasgau o fewn cyfnod penodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn ddigon rhagweithiol yn eu dysgu eu hunain, ac o ganlyniad, maent yn or-ddibynnol ar arweiniad athrawon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn eu cymuned ac yn cymryd rhan yn gyson mewn ystod o weithgareddau lleol fel tyfu planhigion a llysiau yn yr ardd gymunedol. Maent yn weithgar wrth gefnogi elusennau amrywiol yn lleol a chenedlaethol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus a deallus yn briodol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae gan y staff berthynas waith gadarnhaol gyda'r disgyblion sydd, ar y cyfan, yn hybu'r dysgu'n briodol. Maent yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac yn eu hannog i weithio'n ddiwyd mewn amgylchedd ddysgu gynhwysol a chefnogol. Mae bron pob aelod o staff yn cefnogi'r disgyblion yn gadarn ac yn darparu gweithgareddau sy'n cyfateb i anghenion y mwyafrif ohonynt. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau yn cyfateb i anghenion lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn ddigon pwrpasol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion, ac yn benodol y rhai uwch eu gallu, bob amser yn cyflawni hyd orau eu gallu.

Mae gan lawer o'r athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn cyfeirio'n briodol mewn gwersi at wybodaeth flaenorol y disgyblion. Maent yn gosod amcanion dysgu clir iddynt ac yn eu holi'n grefftus er mwyn datblygu eu syniadau. Yn y lleiafrif o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn sicrhau cyflymder da a rhediad llyfn i'r gweithgareddau. Maent yn amrywio'r technegau dysgu'n llwyddiannus ac yn annog disgyblion i gydweithio'n rhagweithiol wrth gyflawni tasgau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cefnogi ei gilydd yn ystyriol wrth ddatblygu eu medrau tra'n dylunio ac adeiladu roced. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yr athrawon yn annog digon ar ddisgyblion i ddysgu'n annibynnol. Nid ydynt ychwaith yn darparu digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd na TGCh yn drefnus nac yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn llesteirio gallu lleiafrif y disgyblion i wneud cynnydd cadarn mewn amrywiol feysydd.

Mae mwyafrif yr athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda ac yn darparu llawer o weithgareddau i ddisgyblion sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau cydweithio o fewn grwpiau i wneud ymchwiliad gwyddonol ar ddisgyrchiant a ffrithiant, gan ffilmio'r arbrawf a chyflwyno'r canlyniadau yn ddigidol. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau i ddatblygu medrau creadigol disgyblion yn gyson. Er enghraifft, maent yn darparu ystod o weithgareddau celfyddydol lle mae disgyblion yn llunio sgriptiau a chyfansoddi caneuon, a'u perfformio mewn arddull sêr pop o flaen sgrin werdd.

Yn y mwyafrif o’r dosbarthiadau, mae athrawon bellach yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion, sy’n eu cefnogi i wella eu medrau ac ansawdd eu gwaith. Maent yn trefnu cyfleoedd buddiol iddynt ymateb i’w sylwadau a gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol ac, o ganlyniad, nid yw adborth athrawon bob tro’n arwain at godi safonau.

Er bod yr ysgol yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn gwersi penodol, nid yw’r cynlluniau’n sicrhau eu bod yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn ddigon cyson. Yn ddiweddar, yn y cyfnod sylfaen, mae’r athrawon yn dechrau cyd-gynllunio’n fwy effeithiol. O ganlyniad, rhoddir sylw cynyddol i brofiadau ymarferol sy’n galluogi’r disgyblion i gymhwyso medrau penodol mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn mesur hyd cysgodion ar wahanol gyfnodau o’r dydd gan ddefnyddio unedau ansafonol a safonol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r athrawon yn dechrau darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cofnodi cyfeiriad gan ddefnyddio pedwar ac wyth pwynt y cwmpawd wrth wneud gwaith map. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws y cyfnod ac nid yw’r gweithgareddau bob amser yn cyfateb i anghenion lleiafrif o ddisgyblion yn ddigon da.

Nid yw athrawon yn cynnig cyfleoedd digon cyfoethog a heriol i ddisgyblion gymhwyso’u medrau llythrennedd a rhifedd i’r un graddau ag y maent mewn gwersi iaith a mathemateg mewn cyd-destunau ehangach. Er bod yr ysgol yn darparu ychydig o brofiadau gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh, cyfyng ydynt, ac nid ydynt bob amser yn adeiladu er eu dysgu blaenorol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu’n gyson. Mae staff yn darparu gweithgareddau perthnasol iddynt yn yr ardaloedd dysgu er mwyn hyrwyddo eu medrau dysgu annibynnol. Mae’r amgylchedd dysgu allanol yn hybu’r dysgu’n fuddiol er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd llawer o ddisgyblion. Mae’r gweithgareddau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y staff yn fodelau iaith medrus ac yn cynorthwyo’r disgyblion i ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg yn effeithiol, yn arbennig yn y ffrwd Gymraeg. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion y ddwy ffrwd ddysgu am hanes Cymru wrth ddysgu am hanes Owain Glyndwr ac Hedd Wyn, er enghraifft. Maent hefyd yn eu hannog i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg yn yr ysgol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth llawer o ddisgyblion o’r Gymraeg, a hanes a diwylliant cyfoes Cymru.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella

Gweithdrefnau newydd iawn sydd gan yr ysgol i olrhain cynnydd disgyblion o’u mannau cychwyn, ac mae athrawon yn dechrau eu defnyddio’n briodol i adnabod y camau nesaf yn nysgu’r disgyblion. Dros gyfnod, nid yw gweithdrefnau’r ysgol i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion wedi bod yn ddigon cadarn a dibynadwy, sy’n golygu nad yw lleiafrif sylweddol wedi gwneud y cynnydd y gallent. Er hyn, mae’r ysgol yn darparu ystod o raglenni ymyrraeth priodol i gefnogi’r disgyblion hynny sydd eu hangen ac mae staff yn creu amgylchedd ddysgu gadarnhaol a gofalgar i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd addas. Mae’r unedau sy’n datblygu iaith a lleferydd disgyblion yn cynnig addysg gefnogol, arbenigol, gynhwysol ac ysgogol iddynt.

Mae athrawon yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u rhieni i ddarparu cynlluniau addysg unigol iddynt. Mae'r targedau o fewn y cynlluniau hyn yn gosod arweiniad clir i'r athrawon ar sut i ddatblygu anghenion unigolion. Mae aelodau staff yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd asiantaethau allanol, er enghraifft y 'Tîm o Amgylch y Teulu', i gefnogi disgyblion ag anghenion cymdeithasol ac mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion emosiynol yn gynhwysfawr yn y grŵp maethu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ffynhonnau dŵr niferus o gwmpas yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd yfed dŵr yn gyson. Trwy weithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg wyddonol am y corff, mae'r disgyblion yn deall yr angen i fwyta'n iach. Mae'r ysgol yn darparu gwersi addysg gorfforol yn gyson i'r disgyblion ac mae'r gweithgareddau, sy'n cynnwys y clwb pêl-droed lleol, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini a dewis ffordd iach o fyw yn effeithiol.

Dechrau cael effaith ar fywyd yr ysgol y mae'r cynghorau disgyblion amrywiol ac ychydig iawn o enghreifftiau sydd lle mae llais y disgybl yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys y Cewri Cymraeg sy'n sicrhau bod cerddoriaeth gyfoes Gymraeg i'w chlywed o amgylch yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion fynegi barn am yr ysgol, i arwain eu dysgu eu hunain nac i ddilyn trywyddau a themâu sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Mae athrawon yn defnyddio gweithdrefnau ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad cyffredinol y disgyblion. Mae strategaethau amrywiol fel 'y llaw dawel' yn fodd effeithiol o ymdawelu disgyblion, sicrhau cyswllt llygad rhyngddyn nhw a'r athrawon a sicrhau eu bod yn gwrando'n ofalus. Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo gwerthoedd tegwch, parch a gonestrwydd yn briodol. Gwelir y rhain yn agweddau moesgar y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gyd-fyw'n hapus mewn amgylchedd ddysgu gefnogol. Er enghraifft, mae cymryd rhan yn yr 'Wythnos Gwrth Fwlio' a 'Diwrnod Hosan Amgen' yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o hyn yn llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod agweddau ar wrth-hiliaeth a phwysigrwydd ymdrin ag eraill yn oddefgar.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn gadarn. Mae ansawdd y sesiynau cyd-addoli yn effeithiol a rhoddir cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu a'u hymddygiad yn gyson. Darperir cyfleoedd iddynt ddysgu am bwysigrwydd gofalu am eraill yn lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gyfrannu at y banc bwyd lleol.

Mae ymweliadau addysgol gwerthfawr, er enghraifft i Gaerdydd wrth ddysgu am ddaearyddiaeth Cymru ac i safle hanesyddol lleol i ddysgu am y Celtiaid, yn cyfrannu'n addas at wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion ym maes y dyniaethau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Dros gyfnod, nid yw arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol wedi bod yn ddigon cadarn nac effeithiol.  Nid yw arweinwyr wedi gweithredu'n ddigon strategol i sicrhau bod prosesau'r ysgol ar gyfer gwelliant wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth na safonau disgyblion.  Nid yw prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion wedi bod yn ddigon cadarn a dibynadwy.  O ganlyniad, nid yw arweinwyr nac athrawon wedi targedu unigolion na grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddigon manwl i sicrhau gwelliant.

Yn dilyn cefnogaeth ac arweiniad sylweddol gan swyddogion y consortiwm rhanbarthol, yr awdurdod lleol a'r llywodraethwyr dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rheolaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol bellach yn dechrau gwella.  Mae'r pennaeth dros dro, y dirprwy bennaeth dros dro, aelodau eraill yr uwch dîm rheoli newydd a'r staff bellach yn gweithio'n bwrpasol gyda'i gilydd i greu amgylchedd ddysgu briodol i'r disgyblion.  Maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n briodol, yn egnïol ac yn cefnogi ei gilydd yn dda.  Er hyn, ar hyn o bryd, mae sefyllfa arweinyddiaeth tymor hir yr ysgol yn parhau'n ansicr.

Mae athrawon ac arweinwyr wedi cynnal gweithgareddau hunanwerthuso priodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth o'r addysgu, y dysgu a'r ddarpariaeth.  Fodd bynnag, oherwydd sefyllfa fregus yr arweinyddiaeth, nid yw'r ysgol wedi gweithredu ar ganfyddiadau'r monitro yn ddigon effeithiol.  Erbyn hyn, mae gan y pennaeth dros dro a'r uwch dîm rheoli newydd ddealltwriaeth gadarn o brif flaenoriaethau cyfredol yr ysgol.  Mae'r cynllun cyfredol ar gyfer gwella yn cynnwys nifer addas o flaenoriaethau i'w cyflawni o fewn blwyddyn.  Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant na'r trefniadau gwerthuso yn ddigon miniog.  Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i fesur effaith y cynllun ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad athrawon yn anghyson.  Er bod athrawon yn cwrdd ag arweinwyr i drafod eu blaenoriaethau yn flynyddol, nid yw'r amcanion bob amser yn bwrpasol.  Nid oes gweithdrefnau cyson ar waith i ystyried cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau na chyfleoedd i'w gwerthuso.  O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn cyflawni gofynion statudol yn llawn.

Mae gan arweinwyr ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant pwrpasol i'r holl staff er mwyn cefnogi blaenoriaethau ysgol gyfan.  Lle bo hyn yn llwyddiannus, mae effaith yr hyfforddiant i'w gweld mewn safonau addysgu uchel ac mewn safonau a lles disgyblion.  Enghraifft dda o hyn yw athrawon yn datblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen ymhellach wrth ymweld ag ysgolion lleol i arsylwi ar arfer dda.

Yn ddiweddar, mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r pennaeth dros dro ac i'r staff, ac maent yn cyfrannu'n  effeithiol at osod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol.  Maent yn adnabod yr ysgol yn dda.  Mae'r llywodraethwyr yn cwrdd yn rheolaidd ac, erbyn hyn, yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad ac arweinyddiaeth ac maent yn herio pob agwedd ar waith yr ysgol er budd y disgyblion a'r staff.  Maent yn dechrau ymgymryd â gweithgareddau yn ymwneud â'r addysgu a'r dysgu yn fedrus.  O ganlyniad, maent yn dechrau dwyn arweinwyr i gyfrif yn effeithiol am safonau yn yr ysgol.

Mae'r dosbarthiadau yn darparu amgylchedd dysgu sy'n ddeniadol ac yn ysgogol ac mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd agored ar gyfer dysgu a chwarae.  Mae'r arweinwyr, gyda chymorth y rheolwraig busnes a benodwyd yn ddiweddar, bellach yn rheoli'r gyllideb yn gadarn.  Fodd bynnag, nid yw'r grant datblygu disgyblion wedi cael ei ddefnyddio'n  bwrpasol yn y gorffennol.  Nid oes camau wedi bod ar waith i sicrhau ei fod yn cael ei dargedu'n gywir, na chamau ar waith i werthuso ei effaith.  O ganlyniad, nid yw gwariant y grant wedi cyfrannu'n bwrpasol i wella deilliannau na lles plant bregus yr ysgol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2020